



Hybu Cig Cymru  
Meat Promotion Wales

# Systemau pesgi gwartheg eidion

Opsiynau ar gyfer ffermydd gwartheg Cymru



## Ynglŷn â HCC

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru. Rydym yn gweithio gyda phob sector o'r diwydiant cig coch yng Nghymru - o'r ffermwyr i'r archfarchnadoedd, i ddatblygu'r diwydiant ac i ddatblygu marchnadoedd proffidiol i Gig Oen Cymru, Cig Eidion Cymru a phorc o Gymru.

Mae'r llyfryn hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau wedi'u cynhyrchu gan dîm Datblygu'r Diwydiant yn HCC.

Mae'r tîm Datblygu'r Diwydiant yn delio â gweithgareddau sy'n cynnwys:

- Trosglwyddo Technoleg
- Ymchwil a Datblygu
- Gwybodaeth am y farchnad
- Hyfforddiant
- Meincnodi

Hybu Cig Cymru  
Tŷ Rheidol  
Parc Merlin  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3FF

Ffôn: 01970 625050 Ffacs: 01970 615148  
Ebost: [info@hccmpw.org.uk](mailto:info@hccmpw.org.uk)



[www.hccmpw.org.uk](http://www.hccmpw.org.uk)

Ni ellir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cwmni. Er y cymerwyd pob gofal rhesymol wrth ei baratoi, ni warentir ei gywirdeb, ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddibynnu ar unrhyw ddatganiad neu anwaith mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.

Dylunio ©Hybu Cig Cymru 2014  
Cynnwys Technegol: SAC Consulting  
Lluniau: HCC a SAC Consulting

Gorffennaf 2014

# Cyflwyniad

Mae systemau effeithlon a chosteffeithiol i besgi gwartheg eidion yn hanfodol i gael y cynnyrch a'r elw mwyaf posibl. Yn y llyfryn hwn mae arweiniad ymarferol i'r elfennau allweddol mewn systemau pesgi gwartheg eidion sy'n addas i ffermydd yng Nghymru.

Oherwydd natur ffermio da byw, mae nifer o ffactorau amrywiol fel y math o bridd, ansawdd glaswellt, uchder tir a bridiau. Mae hyn yn golygu bod nifer o systemau posibl ar gyfer pesgi gwartheg eidion.

Er hynny, mae egwyddorion sylfaenol sy'n ymwneud â thwf, maeth, geneteg, iechyd a rheolaeth sy'n gyffredin i'r holl systemau. Yn y llyfryn hwn rydym yn disgrifio'r egwyddorion hyn er mwyn dangos pa systemau sy'n gallu llwyddo a sut i'w rheoli mewn ffordd effeithlon a phroffidiol.



# Cynnwys

<span style="color: #800000;">■</span>	Cyflwyniad i systemau pesgi gwartheg eidion .....	4
<span style="color: #000080;">■</span>	Maeth anifeiliaid mewn systemau pesgi .....	10
<span style="color: #808000;">■</span>	Cynhyrchu mwy o gig eidion drwy bori .....	14
<span style="color: #FF8C00;">■</span>	Y pwysigrwydd o fod ag anifeiliaid iach .....	18
<span style="color: #9ACD32;">■</span>	Systemau pesgi .....	20
<span style="color: #FF0000;">■</span>	Gwneud arian drwy besgi gwartheg .....	25
<span style="color: #00B0F0;">■</span>	Lleihau ffactorau risg wrth besgi gwartheg .....	30

## Cyflwyniad i systemau pesgi gwartheg eidion

Fel arfer mae systemau pesgi gwartheg eidion yn cael eu rhannu'n dri math: rhai dwys (cyfnod pesgi o 12-15 mis), lled-ddwys (15-20 mis) a llai dwys (mwy na 20 mis). Mae systemau dwys yn dibynnu'n fwy ar ddwysfwyd tra bydd systemau llai dwys wedi'u seilio i fwy o raddau fel arfer ar borthiant a glaswellt.

Mae gwartheg cyfandirol, yn enwedig teirw cyfan, yn fwy addas ar gyfer systemau dwys tra bydd bridiau brodorol traddodiadol neu dreisiedi/heffrod yn fwy addas ar gyfer systemau llai dwys lle y mae cyfradd twf arafach yn caniatáu iddynt gyrraedd pwysau derbyniol heb fynd yn rhy dew. Er hynny, mae cryn amrywiaeth o fewn bridiau felly gallwch hefyd ddefnyddio Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVau) y tad ar gyfer twf a thrwch braster i benderfynu a yw anifail yn addas ar gyfer system pesgi benodol. Yn fyr, bydd cyfraddau gwell ar gyfer trosi bwyd a mwy o gynnydd mewn pwysau byw mewn systemau dwys, a bydd y costau bwyd dyddiol yn uwch ond yr anghenion bwyd cyffredinol yn is.

Mae system led-ddwys yn cynnwys cyfnodau o bori, canol gaeaf gyda chyfnod pesgi dan do. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid ystyried lleoliad y fferm a'r gallu i gynhyrchu neu gael gwahanol fathau o fwyd wrth benderfynu ar y system pesgi. Bydd ffermydd sydd â ffynhonnell o ydau neu sgil-gynhyrchion fel blawd bisged a gwellt yn fwy tebygol o ddefnyddio system ddwys tra bydd ffermydd mewn glaswelltir yn defnyddio systemau lled-ddwys neu lai dwys.

### Amrywiaeth y systemau

Yng Nghymru bydd y rhan fwyaf o wartheg eidion yn cael eu pesgi drwy ddefnyddio systemau wedi'u seilio ar borthiant. Porfeydd a silwair o ansawdd uchel fydd y brif ffynhonnell maeth a defnyddir dwysfwyd egni uchel i ategu'r deiet ar ddiwedd y cyfnod pesgi.

### Crynodeb o systemau pesgi gwartheg eidion

	Cyfnod pesgi (misoedd)			
	12	18	24	30
Cyfradd Trosi Bwyd (kg o ddeunydd sych/kg o enillion pwysau byw)	5 i 7	12	16	20
Costau bwyd (y dunnell o bwysau ffres)	Uchel	Canolig	Isel	Isel
Costau bwyd gydol oes disgwylidig	Isel/canolig	Canolig	Canolig	Uchel
Costau sefydlog gydol oes disgwylidig	Isel/canolig	Canolig	Canolig	Uchel



## Y pwysigrwydd o fod yn effeithlon

Gall maint yr elw fod yn fach wrth gynhyrchu cig eidion a bydd unrhyw fantais o reoli da yn creu system fwy proffidiol. Rhai agweddau ar reoli yw:

- Iechyd a lles y lloi
- Dewis yr eneteg gywir ar gyfer perfformiad
- Dewis mathau/bridiau priodol o wartheg ar gyfer y system
- Gwneud silwair o'r ansawdd gorau
- Rheoli porfeydd
- Dewis y porthiant atodol cywir
- Prynu mewnbynnau am y prisiau cywir
- Cadw costau dan reolaeth
- Gwerthu'r gwartheg cyn i gost y cynhyrchu fynd yn uwch na'r gwerth a ychwanegwyd

## Ffynonellau o wartheg eidion i'w pesgi

### Lloi sugno

Bydd o leiaf dri chwarter o eneteg lloi sugno yn eneteg o wartheg eidion, felly dylai hyn sicrhau bod carcasau'n cydffurfio'n dda a bod y ganran lladd allan yn well. Oherwydd amrywiaeth y bridiau a chroesfridiau sydd yng Nghymru, mae amrywiaeth fawr ym maint lloi sugno a'u potensial ar gyfer pesgi.

Mae rhai ffermydd yn magu eu gwartheg eu hunain i'w pesgi. Mae hyn yn rhoi rheolaeth dros eneteg y fuches, statws iechyd a'r gallu i gynefino gwartheg â newidiadau mewn deiet. Mae'n bosibl bydd manteision eraill hefyd o besgi gwartheg a fagwyd ar y fferm fel y perygl llai o gael achosion o TB.

Yn draddodiadol, bydd y rhan fwyaf o fuchesi sugno yng Nghymru'n lloia yn y gwanwyn felly bydd hyn yn pennu nifer y lloi neu wartheg stôr a fydd ar gael i'w pesgi. Ar y cyfan, mae'r costau mewn systemau lloia yn y gwanwyn yn is (ar gyfer cadw'r fuwch) a dyma'r rheswm dros eu dewis. Gellir prynu gwartheg ar wahanol adegau ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn lloi diddwyn yn yr hydref neu'n wartheg stôr 10-11 mis oed y gwanwyn wedyn.

### Lloi o fuchod godro

Mae gwartheg o fuchesi godro yn ffynhonnell bwysig ar gyfer cig eidion yng Nghymru. Bydd y rhan fwyaf o fuchesi godro confensiynol yn lloia drwy'r flwyddyn felly bydd lloi ar gael bob amser er bod nifer cynyddol o fuchesi sy'n lloia mewn blociau yn y gwanwyn. Bydd

cyfleoedd hefyd i brynu lloi gwryw godro pur neu loi croesfrid eidion i'w pesgi. Cam ychwanegol mewn system ar gyfer pesgi lloi o'r fuches odro yw magu lloi a gellir gwneud hyn ar y fferm wreiddiol neu gan fagwyr lloi arbenigol. Fel arfer bydd teirw o'r fuches odro'n fwy addas i systemau dwys ar gyfer pesgi teirw i gynhyrchu cig eidion.



## Effaith y brîd a'r rhyw ar besgi effeithlon

Mae bridiau bîff cyfandirol yn aeddfedu'n hwyrach. Mae hyn yn golygu eu bod yn tyfu'n gyflymach a bod modd eu pesgi i bwysau trymach. Mae bridiau Prydeinig brodorol yn aeddfedu'n gynnar gan mwyaf: maent yn tyfu'n arafach ac mae eu pwysau'n ysgafnach wrth gyrraedd y lefelau pesgi gofynnol. Bydd rhyw'r anifail yn cyfrannu yn yr un ffordd at ei gyfradd aeddfedu. Cymerir bod teirw'n aeddfedu'n hwyrach a bod treisiedi/heffrod yn aeddfedu'n gynnar. Fel arfer bydd gwartheg Holstein Friesian yn aeddfedu dros gyfnod canolig neu hir.

Mae anifeiliaid sy'n aeddfedu'n hwyrach a theirw yn addas i systemau dwys lle y gallant dyfu'n gyflym a chyrraedd pwysau trwm. Bydd angen system led-ddwys neu lai dwys ar gyfer gwartheg sy'n aeddfedu'n gynnar neu heffrod gan fod angen iddynt dyfu'n arafach a thros gyfnod hirach er mwyn cyrraedd y pwysau gofynnol.

Wrth edrych ar fridiau ar gyfer systemau pesgi, mae hefyd yn bwysig ystyried datblygiadau yng ngeneteg bridiau bîff yn ogystal â'u EBVau. Mae rhai bridiau Prydeinig brodorol wedi cynnwys elfennau genetig o Ganada ac UDA sydd wedi gwneud anifeiliaid y brîd yn fwy a'u cyfnod aeddfedu'n hirach. Yn yr un modd, bydd EBVau yr anifail ar gyfer ei gyfradd twf a'i drwch braster yn effeithio hefyd ar gyfradd aeddfedu'r anifail.



## Nodweddion bridiau sy'n aeddfedu'n gynnar neu'n hwyr

	Aeddfedu'n gynnar	Aeddfedu'n hwyr
Maint yr anifail aeddfed	Llai	Mwy
Pwysau geni	Ysgafnach	Trymach
Cyfnod beichiogrwydd	Byrrach	Hirach
Rhwyddineb wrth fwrw lloi	Haws	Anoddach
Cyfradd twf bosibl	Canolig	Uwch
Pwysau'r carcass	Ysgafnach	Trymach
Braster ar y carcass	Mwy o fraster	Llai o fraster
Cyddfurfiad y carcass	Canolig	Uwch
Lefel bwyd ddyddiol	Canolig	Uwch
Cyfran o ddwysfwyd	Is	Uwch
Cyfnod pesgi	Byrrach	Hirach

## Perfformiad nodweddiadol y bridiau a systemau pesgi

Brid	Teirw		Bustych		Treisiedi/Heffrod	
	Oed (mis)	Pwysau (kg)	Oed (mis)	Pwysau (kg)	Oed (mis)	Pwysau (kg)
Holstein/Friesian	12-14	550	15-18	600		
Charolais	12-14	650-700	15-18	650-700	18-20	600-625
Belgian Blue	12-14	625-675	15-18	650-675	18-20	600-625
Simmental	13-14	625-675	15-18	650-675	18-20	600
Limousin	13-14	625-650	15-18	625-650	18-20	575-600
Aberdeen Angus			18-20	575-600	20-24	550-575
Beef Shorthorn			18-20	575-600	20-24	550-575
Hereford			18-20	575-600	20-24	550-575
Du Cymreig			18-22	575-625	20-24	525-575

Dwys	Lled-ddwys	Llai dwys
12-14 mis	15- 20 mis	Dros 20 mis



### Defnyddio Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVau)

Mae EBVau yn cael eu cyfrifo ar gyfer nifer o deithi mewn teirw a buchod pedigri. Gall y rhain fod yn deithi mamol fel rhwyddineb wrth fwrw lloi, y cyfnod beichiogrwydd a phwysau geni neu deithi o ran twf a charcasau. Drwy ddewis teirw ar sail EBVau dymunol, ceir epil sy'n perfformio'n well o ran y teithi a ddewiswyd na'r rheini sydd â gwerthoedd is.

### Bridio'ch lloi eich hun i'w pesgi

Os ydych yn bridio gwartheg ar y fferm i'w pesgi, rhai o'r EBVau i'w hystyried wrth brynu teirw magu yw:

- Rhwyddineb lloia uniongyrchol positif uchel
- Cyfnod beichiogrwydd negatif
- Pwysau uchel ar ôl 400 diwrnod
- Trwch cyhyrau positif
- Trwch braster. Mewn rhai bridiau, mae trwch braster positif yn fwy dymunol gan ei fod yn ei gwneud yn haws pesgi'r anifail gan y bydd yn magu braster yn gynharach.

### Prynu gwartheg stôr i'w pesgi

Os byddwch yn prynu gwartheg stôr neu loi i'w pesgi, ni fydd EBVau y gwartheg hynny'n hysbys fel arfer. Er hynny, mae'n bosibl y gallwch gael gwybod gan y gwerthwyr pa deirw a ddefnyddiwyd a chwilio am EBVau y teirw hynny ar wefannau cymdeithasau'r bridiau. Er mwyn gwneud hyn, rhaid cael y rhif cyfan ar dag clust UK y tarw.

Gan fod systemau mwy strwythuredig a chydweithredol ar gyfer pesgi gwartheg eidion yn dod yn gyffredin, mae'n bosibl cael gwybod EBVau y tad a ddefnyddiwyd. Mae enghreifftiau'n bod yn barod o systemau gwartheg eidion strwythuredig lle y mae buchod godro'n cael eu ffrwythloni gan deirw penodol ac o drefniadau preifat rhwng ffermwyr.



### Cyfnodau twf

#### Cyfnod magu

Dyma'r cyfnod rhwng geni'r llo a'i ddiddyfnu. Bydd lloi sydd wedi'u magu ar fwyd pwced wedi cael eu diddyfnu'n gynharach a bydd eu rwmennau'n fwy na lloi sugno. Mae'r pwysau byw yn cynyddu'n effeithlon iawn yn y cyfnod hwn. Bydd gwartheg sydd mewn system pesgi ddwys yn cael eu rhoi ar ddeiet pesgi yn syth ar ôl y cyfnod magu.

#### Cyfnod tyfu

Cyfnod o dwf cyson parhaus yw hwn a welir yn aml mewn nifer o systemau gwartheg eidion lled-ddwys. Ar ôl eu magu, mae'r lloi'n cael eu "tyfu ymlaen" i gynyddu eu corffolaeth a'u pwysau cyn y cyfnod gorffen dwys. Y nod yw cael twf rhwng 0.6 a 0.9kg y diwrnod yn y cyfnod hwn.

#### Cyfnod gorffen

Hwn yw'r cyfnod olaf yn nhwf yr anifail pan yw'n cael ei "orffen". Bydd yn ennill pwysau'n gyflym yn y cyfnod hwn er mwyn cynhyrchu'r mwyaf posibl o gig a magu'r braster sy'n ddymunol.

Bydd gwartheg yn ennill rhwng 1.0 a 1.4kg y diwrnod ar ddeiet egni uchel (mwy na 12.2 MJ/kgDM ME) y bydd mwy na 33% ohono'n startsh a lefel y proteinau crai rhwng 12% a 15%. Bydd yn bwysig hefyd fod digon o ffeibrau hir ar gael i hwyluso treuliad ac i atal problemau iechyd fel asidosis.



## Lleihau cyfnodau anghynhyrchiol

Mae nifer o systemau gwartheg eidion llai dwys yn cynnwys cyfnod storio pan fydd y gwartheg yn ennill rhwng 0.5 a 0.8kg y diwrnod er mwyn cynyddu eu corffolaeth a'u maint cyn y cyfnod gorffen. Un o fanteision y cyfnod storio yw ei fod yn gyfnod o dwf cymharol rad pan ddefnyddir porthiant a dyfwyd ar y fferm. Gall arwain hefyd at dwf cydadferol ar ôl rhoi'r gwartheg ar ddeiet gwell ar borfa neu yn ystod y cyfnod gorffen.

Fel arfer nid oes cyfnod storio mewn systemau gwartheg eidion dwys a lled-ddwys, felly mae'n hanfodol bod yr anifeiliaid yn parhau i dyfu'n weddol gyflym drwy gydol eu hoes er mwyn cyrraedd y targedau sydd wedi'u gosod. Un mater pwysig yw'r angen i leihau unrhyw rwystrau rhag twf pan fo hynny'n bosibl. Gellir cael rhwystrau rhag twf pan fydd newid yn neiet yr anifail neu yn y lle y mae'n cael ei gadw, neu pan gaiff ei diddyfnu, gan fod digwyddiadau o'r fath yn gallu achosi straen.

Rhai o'r arferion rheoli neu faethu sy'n cael eu defnyddio i osgoi rhwystrau rhag twf yw:

- Newid y deiet yn raddol os oes modd e.e. didol borthi, yn arwain at fwydo'n rhydd
- Diddyfnu lloi sugno'n raddol a sicrhau nad yw diddyfnu'n digwydd yr un pryd â thriniaethau iechyd a newid sydyn yn y deiet
- Sicrhau bod dŵr glân ffres a ffeibrau hir ar gael bob amser
- Cyn troi gwartheg stôr allan i bori, lleihau'r dwysfwyd dros gyfnod o 1-2 mis fel y bydd llai o fraster arnynt (cyflwr storio)
- Cynllunio rhaglen iechyd a'i rhoi ar waith

## Cynnydd Pwysau Byw a'r Effeithlonrwydd Trosi Bwyd

Y ffactor pwysicaf mewn llwyddiant ariannol yw'r gost y kg am y cynnydd mewn pwysau byw. Mae'r ffactor hwn yn cynnwys nifer o elfennau:

- Cost y bwyd
- Cynnydd Pwysau Byw
  - Cael ei bennu gan frîd a rhyw'r anifail, ei werthoedd genetig a'i ddeiet
- Effeithlonrwydd Trosi Bwyd
  - Nifer y cilogramau o fwyd y mae eu hangen am bob cilogram o gynnydd yn y pwysau byw. Bydd nifer y cilogramau o fwyd y mae eu hangen i sicrhau twf yn cynyddu wrth i'r anifail fynd yn drymach gan fod anghenion cynnal yr anifail yn mynd yn fwy
  - Bydd deiet o ddwysfwyd yn costio'n fwy am bob tunnell ond bydd yn arwain at well Effeithlonrwydd Trosi Bwyd
  - Yr elfen enetig mewn effeithlonrwydd bwyd. Gall rhai anifeiliaid dyfu'n gyflymach nag eraill ar yr un mewnbwn o fwyd. Y gobaith yw y bydd EBVau ar gael am Gymeriant Bwyd Gweddilliol yn y dyfodol



## Maeth anifeiliaid mewn systemau pesgi

Gall bwydo effeithlon roi hwb i gynhyrchiant a phroffidioldeb mewn busnesau cynhyrchu cig eidion. Mae dadansoddiad o gyfrifon wedi dangos mai costau am fwyd a phorthiant yw mwy na 70% o'r costau newidiol mewn system pesgi gwartheg eidion. Felly bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw fwyd neu borthiant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

### Ansawdd bwyd

Rhaid gwybod am gyfansoddiad y bwyd er mwyn ei ddogni ar gyfer gwartheg eidion. Dylid dadansoddi porthiant ac ydau a dyfwyd ar y fferm bob amser cyn llunio deietau er mwyn cynnwys y mwyaf posibl o borthiant a'r lleiaf posibl o ddwysfwyd a brynwyd. Drwy ddefnyddio porthiant o ansawdd uwch, gellir defnyddio llai o ddwysfwyd.

### Dognau ar gyfer bustach 450kg er mwyn cael cynnydd o 1kg y diwrnod yn ei bwysau byw gyda gwahanol feintiau o silwair

	Silwair gwael (9.5 ME, 9-10% CP)	Silwair gweddol dda (10.5 ME, 10-11%CP)	Silwair da (11.5 ME, 12-14% CP)
Silwair (pwysau ffres mewn kg)	19	24.5	28.5
Haidd (kg)	4.7	3.3	2.2
Cost/kg	£1.23	£1.14	£1.06

*Cymerwyd bod silwair yn £25 y dunnell a haidd yn £160 y dunnell*

### Sicrhau'r Cymeriant Deunydd Sych mwyaf posibl

Er mwyn cynnal perfformiad, byrhau'r cyfnod cyn cigyddu anifeiliaid a lleihau costau cynhyrchu, mae'n bwysig sicrhau'r Cymeriant Deunydd Sych mwyaf posibl. Er mwyn cynyddu'r Cymeriant Deunydd Sych:

- Rhaid gofalu bod porthiant blasus da o ansawdd uchel ar gael
- Rhaid cadw bwyd yn ffres: dylid glanhau'r cafnau dair gwaith yr wythnos
- Rhaid sicrhau bod dŵr glân a ffeibrau hir ar gael bob amser
- Os yw'r gwartheg dan do, rhaid awyru'r cytiau a darparu deunydd gorwedd sych
- Ni ddylid rhoi ydau sydd wedi'u gorbrosesu
- Dylai wynebau'r cafnau fod yn llyfn ac yn lân
- Ni ddylid gyrru peiriannau dros borthiant



## Porthiant ar gyfer gwartheg eidion

Porthiant a dyfwyd ar y fferm fydd y sylfaen ar gyfer bwydo ar y rhan fwyaf o ffermydd gwartheg eidion yng Nghymru, a silwair glaswellt fydd y prif borthiant. Fodd bynnag, bydd yr ansawdd yn amrywio'n fawr yn ôl y cyfnod y cafodd ei dorri, ansawdd y borfa sydd ar gael a'r gofal wrth silweirio. Mae silwair meillion coch yn ddelfrydol ar gyfer gwartheg sydd ag angen porthiant uchel ei brotein.

Mae silwair indrawn yn dda ar gyfer pesgi gwartheg, gan ei fod yn uchel o ran egni a startsh. Mae indrawn yn cael ei weld yn ddrud i'w dyfu. Er hynny, gall fod yn

gosteffeithiol oherwydd y posibilrwydd o gael cnwd mawr a gellir tyfu indrawn yn ddi-dor neu ei gylchdroi â chnydau eraill.

Mae nifer o opsiynau ar gyfer cynaeafu ydau fel cnwd cyfan. Bydd y dull a ddewisir yn dibynnu ar y cyfleusterau storio sydd ar gael, y peiriannau sydd ar gael gan gontractwyr a beth sy'n addas i'r system. Gan fod gwahanol fathau o silwair cnwd cyfan, gellir bod yn hyblyg wrth gynaeafu ac mae hyn yn bwysig yng Nghymru oherwydd yr hafau gwlyb a'r cynaeafau hwyr a geir weithiau.

## Gwerthoedd bwyd nodweddiadol y mathau cyffredin o borthiant

	% y deunydd sych	ME MJ/kg o ddeunydd sych	CP%	Yn fwyaf addas ar gyfer
Silwair glaswellt da	25-35	11.0 i 11.5	12-14	Gorffen gwartheg
Silwair glaswellt gweddol dda	20-25	10.0 i 10.5	10-12	Gwartheg stôr
Silwair meillion coch	30-35	10.5 i 11.0	14-17	Tyfu anifeiliaid
Silwair indrawn	30-32	11.0 i 11.5	9-10	Gorffen anifeiliaid
Cnwd cyfan wedi'i eplesu	30-40	10.0 i 11.0	9-10	Anifeiliaid o bob math
Cnwd cyfan wedi'i falu	60-70	10.0 i 11.0	9-17	Anifeiliaid o bob math

## Gwerthoedd Bwyd Cymharol

Wrth brynu bwyd, mae'n werth ystyried ei Werth Bwyd Cymharol. Mae'n dangos egni'r gwahanol fwydydd o'i gymharu â haidd (ME) a'u protein o'i gymharu â blawd rêp (CP%). Er mwyn cyfrifo'r Gwerth Bwyd Cymharol, mae angen y wybodaeth ganlynol: pris y dunnell, % y Deunydd Sych, ME (MJ/kgDM) a CP%. Mae Gwerthoedd Bwyd Cymharol yn cael eu cyhoeddi mewn papurau a chylchgronau i ffermwyr fel arfer ond, os ydych yn gwybod cost y bwyd, mater hawdd yw cyfrifo Gwerth Bwyd Cymharol y gwahanol fwydydd.

### Enghraifft - cymharu cost egni haidd a mwydion betys

- Mae haidd yn costio £150 y dunnell mewn pwysau ffres. Gan fod 86% ohono'n Ddeunydd Sych a'i ME yn 13.2, byddwch yn cael 11,352 MJ am £150 neu 100 MJ am £1.32
- Mae mwydion betys yn costio £175 y dunnell. Gan fod 89% ohono'n Ddeunydd Sych a'i ME yn 12.5, byddwch yn cael 11,125 MJ am £175 neu 100 MJ am £1.57
- Yn yr enghraifft hon, haidd yw'r ffynhonnell egni rataf. Fodd bynnag, rhaid ystyried cyfansoddiad y deiet hefyd – mae haidd yn cynnwys llawer o startsh, mae ffeibrau treuliadwy mewn mwydion betys – yn ogystal â materion ymarferol fel storio, cymysgu a'ch gallu i dderbyn llwythi mawr swmpus sy'n rhatach.

Yn aml bydd yn haws prynu bwyd cyfansawdd neu flend, ond drwy wybod manylion yr holl gynhwysion byddwch yn gallu cymharu'r gost am egni a phrotein.



### Opsiynau ar gyfer trin ydau

Oherwydd natur yr hinsawdd yng Nghymru a phrinder cymharol y cyfarpar cynaeafu a sychu, arfer cyffredin yw cynaeafu ydau pan ydynt yn llaith a'u trin i gadw a/neu wella'r grawn. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd wrth gynaeafu hefyd ac yn ymestyn y cyfnod ar gyfer cynaeafu, ond yn caniatáu gwneud bêls gwellt sy'n werthfawr ar ffermydd da byw.

### Trin ag asid propionig

Gwneir hyn i drin grawn sy'n cynnwys hyd at 24% o leithder. Bydd yn lladd burum, llwydni a bacteria. Bydd angen prosesu grawn sydd wedi'i drin ag asid propionig cyn ei fwydo i wartheg.

### Dŵr, mwynau ac elfennau hybrin

#### Dŵr

Mae dŵr yn rhan hanfodol o bob dogn. Er bod dŵr mewn rhai bwydydd gwlyb, rhaid darparu ffynhonnell addas o ddŵr glân bob amser.

- Mae ar wartheg angen rhwng 5 a 7 litr o ddŵr am bob kg o Ddeunydd Sych
- Yn aml bydd gwartheg yn yfed gyda'i gilydd ar ôl bwydo felly rhaid i'r cyflenwad dŵr fod yn ddigonol i gwrdd â'r galw mwyaf
- Rhaid i'r cyflenwad dŵr fod yn ddigonol, yn lân, yn hawdd ei gyrraedd ac yn ddi-dor
- Rhaid archwilio cafnau dŵr bob dydd a thynnu unrhyw wellt neu dail

#### Mwynau ac Elfennau Hybrin

Mae'n hanfodol bod yr ychwanegion mwynau a fitaminau yn gywir er mwyn cael y cynnyrch mwyaf posibl a chynnal iechyd. Fodd bynnag, os bydd perfformiad anifeiliaid yn anfoddfaol, rhaid ystyried ffactorau posibl eraill sy'n ymwneud â deiet a rheolaeth cyn ei briodoli i ddiffygion o ran mwynau neu fitaminau.

### Prosesu bwyd

Os yw grawn yn cael ei brosesu ar fferm, mae'n bwysig peidio â'i brosesu'n ormodol. Er mwyn sicrhau hynny, dylid rholio neu falu'r grawn i tua hanner ei drwch arferol ac ni ddylid cael unrhyw flawd mân yn y deiet. Mae hyn yn gyfle i arbed arian ar gostau prosesu ond, yn

### Trin ag wrea

Gellir cadw grawn sy'n cynnwys 30-40% o leithder drwy ychwanegu wrea wrth ei gynaeafu. Bydd yr wrea'n troi'n amonia sy'n cadw'r grawn ac yn ei gwneud yn haws treulio croen yr had (fel y gellir rhoi'r grawn yn gyfan). Mae hefyd yn cynyddu'r protein crai i 17-18% ac yn atal fermin. Ar ôl trin y grawn, rhaid ei orchuddio mewn pwll neu ag-bag ond nid oes rhaid ei rollo.

### Crimpio

Mae grawn sy'n cynnwys 30-45% o leithder yn cael ei drin ag ychwanegyn a'i roi drwy beiriant crimpio. Ar ôl ei grimpio, bydd y grawn yn eplesu ac yn cynhyrchu asid sy'n ei gadw. Nid oes angen mwy o brosesu. Rhaid gwasgu'r grawn sydd wedi'i grimpio a'i orchuddio.

#### Pwyntiau cyffredinol

- Os rhoddir gormod o un o'r mwynau neu elfennau hybrin mewn bwyd, gall hynny effeithio ar y graddau y bydd mwynau neu elfennau hybrin eraill ar gael. Os oes angen rhoi ychwanegion, dylid defnyddio cymysgedd mwynau/elfennau hybrin o ansawdd uchel.
- Dylid defnyddio mwynau at ddibenion cyffredinol ar gyfer gwartheg mewn system pesgi ar borthiant: mae cymysgeddau mwynau arbennig ar gael ar gyfer gwartheg mewn systemau dwys.
- Dylid gwirio'r lefelau mwynau ac elfennau hybrin yn rheolaidd (drwy brofion pridd, dadansoddi bwydydd neu samplu gwaed), a dylid addasu'r ychwanegion mwynau os oes diffyg neu ormod o unrhyw fwynau penodol.

bwysicach, mae'n rheoli'r perygl o asidosis sef anhwylder sy'n cael ei achosi gan startsh sy'n eplesu'n gyflym yn y rwmen. Dylid disgwyl y bydd rhai grawn cyfan yn nhail yr anifail. Mae hyn yn arferol ac nid yw'n golygu bod bwyd yn cael ei wastraffu.

## Dwysfwyd ar gyfer pesgi gwartheg

### Mathau cyffredin o ddwysfwyd ar gyfer pesgi gwartheg

	DS%	ME MJ/kgDM	CP g/kgDM	Derbynioldeb	Y % uchaf i'w gynnwys mewn Deunydd Sych
Haidd	86	13.2	12.1	Da	50 <sup>1</sup>
Gwenith	86	13.8	12.8	Da	30
Indrawn	86	14.3	8.5	Da	40
Ceirch	86	12.2	11.0	Da	50
Grawn tywyll haidd	89	12.7	26.0	Da	35
Grawn tywyll gwenith	89	13.5	32.0	Da	40
Grawn tywyll indrawn	89	14.8	28	Da	30
Glwten indrawn	89	12.5	21.7	Gweddol dda	45
Bwyd gwenith	89	11.5	17.3	Gweddol dda	50
Pelenni brag	89	11.5	23.5	Gweddol dda	25
Grawn bragu	23	11.7	24.0	Da	45
Surop gwaddod	45	14.0	37.0	Da	20
Blawd bisged	88	15.0	9.5	Da iawn	30
Pys	86	12.8	24.0	Gweddol dda	30
Ffa	86	13.8	29.0	Amrywiol	30
Bysedd y blaidd	86	14.3	38.0	Gweddol dda - Da	15
Blawd ffa soia	88	13.8	52.0	Da	15
Blawd had rêp	88	12.1	38.5	Gweddol dda	20
Cibau soia	89	11.9	12.2	Gweddol dda	25
Blawd cnewyll palmwydd	89	12.3	18.0	Gwael	20
Blawd blodau'r haul	88	9.5	36.0	Da	20
Mwydion betys siwgr triaglog	89	12.5	10.0	Da iawn	45
Mwydion sitrws	89	12.5	7.0	Amrywiol	30
Triagl câns	75	12.6	6.0	Da iawn	20

<sup>1</sup>Yn uwch mewn system pesgi gwartheg eidion â haidd

Ydau	Cydgynhyrchion ydau	Codlysiau	Cydgynhyrchion had olew	Cydgynhyrchion eraill
------	---------------------	-----------	-------------------------	-----------------------

## Cynhyrchu mwy o gig eidion drwy bori

### Rheoli glaswellt

Mae ffyrdd gwell o reoli a defnyddio glaswellt yn dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer pesgi gwartheg ar borfeydd neu gynyddu twf a phwysau gwartheg stôr. Mae trafodaeth fwy manwl ar faterion cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli glaswellt yng nghyhoeddiad HCC "Rheoli Glaswellt".

Mae pwysau a enillir drwy bori yn costio rhwng 25% a 33% o'r pwysau a enillir ar ddeiet dan do. Felly mae cyfle i leihau costau cynhyrchu'n sylweddol drwy ennill pwysau'n gyflym bob dydd drwy bori. Mae dwy fantais – yn gyntaf, drwy reoli glaswellt yn dda gellir cynyddu'r pwysau byw a enillir o 0.6kg y pen y diwrnod (y ffigur arferol mewn nifer o systemau sydd â lefelau stocio sefydlog) i o leiaf 1.0kg y pen y diwrnod ac, yn ail, ni fydd angen i'r gwartheg ennill cymaint o bwysau wedyn drwy ddeiet dan do sy'n fwy drud.

### Pori mewn cylchdro

Amcangyfrifwyd bod pori mewn cylchdro yn arwain at gynhyrchu 10-20% yn fwy o Ddeunydd Sych o laswellt na systemau â lefelau stocio sefydlog sydd wedi'u rheoli'n wael. Mae hyn yn digwydd am fod y glaswellt yn cael ei adael i gyrraedd ei gynnyrch uchaf posibl. Bydd ansawdd y glaswellt yn gwella'n fawr hefyd.



### System cylchdro syml ar gyfer gwartheg eidion

Drwy fabwysiadu system syml a rhad o bori mewn cylchdro i besgi gwartheg, gellir cael cynnydd dyddiol mewn pwysau byw o fwy na 1.0kg y pen y diwrnod am lai na 50c/kg. Un dull posibl yw rhannu caeau mwy â ffens drydan un wifren a gadael y caeau llai fel y maent. Os oes modd, dylai pob padog gael ei bori am 2-3 diwrnod ar y mwyaf a'i adael wedyn am 20-25 o ddiwrnodau cyn y pori nesaf. Po fwyaf o badogau fydd ar gael, mwyaf fydd y defnydd ohonynt. Rhaid cael cyflenwad da o ddŵr ar gyfer pob padog wrth ddefnyddio'r system hon. Rhaid seilio'r arwynebedd a roddir bob diwrnod ar yr egwyddorion canlynol:

- Cymeriant Deunydd Sych sy'n 2.5% o'r pwysau byw, e.e. anifail 400kg = 10kg o Ddeunydd Sych y pen y diwrnod
- Bod y glaswellt wrth ddechrau defnyddio'r padog yn rhoi tua 2,500kg o Ddeunydd Sych yr ha neu'n 8-12cm o hyd. Os bydd yn hirach, mae perygl y bydd y glaswellt yn mynd yn goesog ac yn colli ei ansawdd
- Bod y glaswellt sy'n weddill ar ôl gadael y padog yn rhoi 1,500kg o Ddeunydd Sych yr ha neu'n 4-5cm o hyd. Os bydd yn fyrrach, bydd y cymeriant yn gyfyngedig a bydd y glaswellt yn aildyfu'n arafach

## Cyllideb glaswellt sylfaenol ar gyfer tyfu gwartheg

Nifer y gwartheg	50
Pwysau byw y gwartheg (kg)	400
Anghenion Deunydd Sych y grŵp bob dydd (kg DS)	500 (50 o wartheg x 400kg x 2.5% o bwysau'r corff)
Glaswellt cyn pori	2,500kg DS/ha (8-12cm)
Glaswellt ar ôl pori	1,500kg DS/ha (4-5cm)
DS/ha sydd ar gael	1,000kg
Maint y padog sydd ei angen	0.5 ha/diwrnod neu 1 ha am 2 ddiwrnod

Wrth i'r gwartheg dyfu, rhaid addasu'r cyllidebau bwyd i ateb y galw am fwy o ddeunydd sych. Hefyd, os bydd gwartheg mewn padog am fwy na 3 diwrnod, yna rhaid ystyried twf y glaswellt tra byddant yn y cae, yn enwedig mewn cyfnodau pan fydd glaswellt yn tyfu'n gyflym.

### Hyblygrwydd

Drwy fesur y gorchudd o laswellt bob wythnos a chyfrifo'r gyllideb glaswellt fel y dangoswyd uchod, cewch wybodaeth a fydd o gymorth wrth reoli anifeiliaid a phorfeydd. Er enghraifft:

- Gellir gwneud silwair o unrhyw laswellt sydd dros ben
- Os yw'r glaswellt yn doreithiog, gellir cadw rhai caeau o'r neilltu i'w hailhau
- Gellir rhag-weld prinder glaswellt a rhoi gwrtaith ychwanegol neu fwydo'r gwartheg am gyfnod (neu dderbyn y bydd lefel perfformiad yr anifeiliaid yn is)
- Bydd ansawdd y glaswellt yn parhau'n uchel a bydd perfformiad yr anifeiliaid yn fwy cyson drwy gydol y tymor



### Cynefino gwartheg â deiet porthiant

Cyn troi gwartheg allan i bori bydd yn llesol lleihau maint y dwysfwyd fel y bydd mwy o borthiant yn y deiet. Bydd hyn yn lleddfu unrhyw arafu yn eu twf ar ôl eu troi allan i bori. Mae canlyniadau o dreialon wedi awgrymu bod lleihau dwysfwyd fel hyn yn cynefino'r gwartheg yn well â deiet porthiant ar ôl eu troi allan fel nad yw eu twf yn arafu cymaint. Roedd y gwartheg wedi cael eu

bwydo â dwysfwyd yn ôl y patrymau isod am y 150 o ddiwrnodau cyn eu troi allan :

- Cyson - 2kg y pen y diwrnod am 150 o ddiwrnodau
- Cynyddol - 1kg am y 50 diwrnod cyntaf, 2kg am y 50 diwrnod canol ac 3kg am y 50 diwrnod dwethaf
- Gostyngol - 3kg am y 50 diwrnod cyntaf, 2kg am y 50 diwrnod canol ac 1kg am y 50 diwrnod dwethaf

### Mabwysiadu system bwydo lefel uchel/isel ar gyfer gwartheg stôr

Lefel bwydo	Pwysau wrth eu cadw dan do (kg)	Pwysau wrth eu troi allan (kg)	Cyfanswm y dwysfwyd a ddefnyddiwyd (kg)	Cyfanswm y silwair a ddefnyddiwyd (tunnell)	% y silwair yn y deiet wrth eu troi allan
Cyson	300	425	300	3.2	75
Cynyddol	300	420	300	3.1	60
Gostyngol	300	420	300	2.9	90

Mantais ychwanegol yw bod defnyddio lefelau uwch o ddwysfwyd ar ddechrau'r gaeaf yn ffordd effeithlon o ddefnyddio bwyd gan y bydd yr anifeiliaid yn trosi bwyd yn fwy effeithlon pan fyddant yn ifanc. Hefyd mae'n helpu'r rwmn i ddatblygu o ddeiet o laeth yn bennaf i ddeiet o ddwysfwyd a phorthiant. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn systemau ar gyfer lloi sugno.

### Troi gwartheg allan i bori

Yn ogystal â chynefino'r gwartheg â deiet sy'n cynnwys mwy o borthiant, dyma rai cynghorion eraill ar gyfer rheoli gwartheg wrth eu troi allan:

- Unwaith y bydd y tir mewn cyflwr addas, trowch grŵp bach o wartheg ysgafnach allan
- Trowch y gwartheg allan pan fyddant wedi mynd heb fwyd fel y byddant yn pori yn hytrach na chrwydro
- Os bydd y glaswellt yn hir wrth eu troi allan, bydd mwy o laswellt yn cael ei wastraffu. Gadewch i'r gwartheg gynefino â glaswellt pan yw'n fyrrach
- Symudwch y gwartheg i bori glaswellt ffres bob yn ail ddiwrnod. Drwy wneud hyn byddant yn pori glaswellt o ansawdd uchel ac ni fyddant yn mynd yn aflonydd
- Rhowch y gwartheg i bori unwaith ar gaeau silwair cyn eu cau allan. Drwy wneud hyn bydd y glaswellt a dorrir gyntaf yn fyrrach ond o well ansawdd. Bydd y silwair a gollir yn llai na'r hyn y byddai ei angen i'w cadw dan do
- Drwy gael tymor pori hirach, bydd y gost o'u bwydo a'u cadw dan dro dros y gaeaf yn llai a byddant yn ennill mwy o bwysau wrth bori







### Twf cydadferol

Gwelir twf cydadferol ar ôl symud y gwartheg ymlaen o gyfnod pan yw eu bwyd yn gyfyngedig neu o ansawdd is (fel eu bod yn ennill llai na 0.7kg y pen y diwrnod) i gyfnod pan fydd eu bwyd heb ei gyfyngu ac o ansawdd uchel fel a geir wrth bori yn y gwanwyn. Fodd bynnag, gwelir effaith debyg hefyd pan fydd gwartheg yn cael eu symud o system pori sydd wedi'i rheoli'n wael i system lle y mae bwyd o ansawdd uchel i'w pesgi. Os yw pori'n rhatach, mae gwell cyfle i leihau cyfanswm y costau cynhyrchu drwy elwa o dwf cydadferol drwy bori.

Mae twf cydadferol yn digwydd am fod:

- Gwartheg sydd heb lawer o fraster yn bwyta mwy o ddeunydd sych
- Cig heb lawer o fraster yn datblygu bedair gwaith yn fwy effeithlon na braster

Er mwyn cael y fantais fwyaf posibl o dwf cydadferol, rhaid rheoli glaswellt yn dda (e.e. drwy bori mewn cylchdro) a rhaid i'r tymor pori fod yn ddigon hir (e.e. drwy droi gwartheg allan yn gynharach) er mwyn sicrhau bod digon o bwysau'n cael eu hennill i wneud iawn am y pwysau a oedd heb eu hennill yn y cyfnod o fwydo cyfyngedig. Fodd bynnag, gan fod cost y pwysau a enillir wrth bori'n llai o lawer na chost y pwysau a enillir ar fathau eraill o ddeiet, mae'n bosibl y bydd y fantais ariannol yn fwy hyd yn oed os na enillir yr holl bwysau yn ôl.

### Bwyd atodol ar gyfer gwartheg sy'n pori

Er bod ansawdd glaswellt y gwanwyn a'r haf cynnar mor uchel ag ansawdd unrhyw ddwysfwd a brynir ac yn rhatach o lawer, mae'n bosibl y bydd weithiau'n llesol rhoi bwyd atodol i wartheg sy'n pori. Er enghraifft:

- Gall fod yn llesol rhoi gwellt i wartheg os yw eu tail yn llac
- Rhoi dwysfwd i wartheg sy'n pesgi ar ddiwedd yr haf cyn eu cadw dan do
- Gan fod protein gormodol mewn glaswellt, drwy roi dwysfwd uchel ei egni/isel ei brotein (ydau'n bennaf) gellir helpu bacteria yn y rwmn i droi'r protein crai yn y glaswellt yn dwf a lleihau maint y nitrogen yng ngharthion yr anifeiliaid
- Mewn cyfnodau pan nad yw glaswellt yn tyfu'n dda, gellir cynnal twf yr anifeiliaid drwy roi porthiant neu ddwysfwd i ategu'r deiet, ond dylid cyfrifo'r gost a budd o wneud hyn yn fanwl

## Y pwysigrwydd o fod ag anifeiliaid iach

Sicrhau iechyd da mewn anifeiliaid yw un o'r anghenion pwysicaf. Dwy o'r agweddau mwyaf hanfodol yw:

- Trefnu rhaglen iechyd ataliol gyda milfeddyg y fferm
- Cael da byw o ffynonellau diogel a mesurau cwarantyn da

Mae'r adran sy'n dilyn yn trafod rhai o'r materion iechyd pwysicaf sy'n berthnasol i wartheg sy'n pesgi, ac mae mwy o fanylion yn llyfryn HCC 'Iechyd y Fuches'.

### Iechyd anifeiliaid sy'n pori

#### Elfennau hybrin

Un rheswm am ddiffyg elfennau hybrin ar ffermydd gwartheg eidion yng Nghymru yw daeareg a mathau o bridd. Gan mai porthiant a dyfwyd ar y fferm fydd y prif ddeiet, bydd unrhyw ddiffygion yn y pridd yn cael eu hamlygu yn y da byw. Y prif elfennau hybrin i'w hystyried ar ffermydd da byw yng Nghymru yw: Copor, Cobalt, Seleniwm ac Iodin. Os yw perfformiad neu iechyd anifeiliaid yn anfodhaol, rhaid ystyried ffactorau posibl eraill sy'n ymwneud â deiet a rheolaeth cyn ei briodoli i ddiffygion o ran elfennau hybrin.

Gellir rhoi ychwanegion drwy ddrensiô'r geg, pigiadau, cynhyrchion bolws a gwrteithio porfeydd. Mae llawer o gynhyrchion bolws ar gael ar gyfer gwartheg sy'n cynnwys nifer o elfennau hybrin: dylid ystyried defnyddio'r rhain yn gyntaf, ar ôl cael cyngor gan filfeddyg, gan eu bod yn gweithio'n araf, yn targedu diffygion ac yn arbed gwaith.



## Llyngyr

### Llyngyr yr ysgyfaint

Mae gwartheg ifanc sy'n pori am y tro cyntaf mewn perygl o gael yr hach sy'n cael ei achosi gan llyngyr yr ysgyfaint, er ei bod yn bosibl y bydd lloi sugno wedi dod yn imiwn drwy sugno. Os yw'r achos o'r hach yn ddifrifol, gall achosi marwolaeth sydyn ond cyfraddau twf is yw'r canlyniad mwy cyffredin. Oherwydd yr arafu ar gyfraddau twf a'r perygl o gael niwmonia wedyn, dylid ystyried triniaethau ataliol cyn pob dim arall. Drwy eu brechu cyn y tymor pori cyntaf, bydd gwartheg yn imiwn drwy gydol eu hoes ac mae'r driniaeth hon wedi profi'n gostefferthiol.

### Llyngyr y stumog

Mae llyngyr y stumog yn ganlyniad i blâu o llyngyr main yn ystod y tymor pori. Gallant gael effaith ddifrifol ar gyfraddau twf gwartheg yn ystod y tymor pori a hefyd yn y gaeaf os na fyddant yn cael eu trin. Gall achosion difrifol arwain at golli £50 y pen o gynnyrch felly dylid cymryd camau ataliol. Gwartheg ifanc yn eu tymor pori cyntaf sydd yn y perygl mwyaf a dylid rhoi moddion llyngyr iddynt drwy ddilyn rhaglen addas.

### Llyngyr yr afu/iau

Mae plâu o llyngyr yr afu mewn gwartheg yn gyffredin mewn ardaloedd gwlyb. Mae llyngyr yr afu yn byw am ran o'u cylch bywyd ar falwod y llaid sy'n gyffredin ar dir gwlyb. Bydd y llyngyr ifanc yn heigio ar y glaswellt sy'n cael ei fwyta gan dda byw. Wedyn bydd y llyngyr yn tyllu drwy'r afu gan wneud niwed mawr cyn troi'n oedolion.

Mae gwartheg yn gallu eu gwrthsefyll yn well na defaid ar y cyfan ac, am eu bod yn cael eu cadw dan do am gyfnod, gellir eu trin yn gymharol rwydd. Fodd bynnag, oherwydd yr hafau gwlyb a'r gaeafau mwynach a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf, dylid cynnwys y clefyd hwn yng nghynllun iechyd y fferm.

Yn ogystal â defnyddio cemegion i'w trin, mae draenio, ffensio manau gwlyb a sicrhau bod defaid yn cael eu trin yn briodol yn gamau sy'n gallu helpu i gadw llyngyr yr afu o dan reolaeth. Yr un llyngyr afu sy'n effeithio ar ddefaid a gwartheg, felly bydd unrhyw ymwrthedd i Triclabendazole (yr unig laddwr llyngyr sy'n lladd llyngyr anaeddfed) o ganlyniad i'w gamdefnyddio mewn defaid neu o ganlyniad i brynu defaid sydd â llyngyr ag ymwrthedd yn effeithio ar y defnydd ohono mewn gwartheg hefyd.

## Iechyd anifeiliaid dan do

### Asidosis

Bydd Asidosis yn codi pan fydd pH y rwmn yn cael ei ddrwsu gan startsh sy'n cael ei ryddhau'n gyflym o'r deiet. Gall anifeiliaid farw o ganlyniad i achosion difrifol ond mae math llai difrifol yn fwy cyffredin sy'n lleihau'r twf posibl o 20-30%.

Rhai camau i'w cymryd i leihau'r perygl o asidosis yw :

- Sicrhau bod yr ydau i wartheg wedi'u malu i gyd ac nad ydynt yn rhy lychlyd
- Sicrhau bod y bwyd ar gyfer da byw sy'n cael eu bwydo'n rhydd yn cael ei gynyddu'n raddol dros gyfnod o 2-3 wythnos ac y bydd ar gael yn barhaol wedyn. Os bydd y bwyd yn dod i ben dros dro, mae perygl y bydd rhai anifeiliaid yn llenwi eu boliau'n syth ar ôl ail-lenwi'r cafnau bwydo
- Sicrhau bod ffeibrau hir fel gwellt glân ar gael bob amser i helpu'r anifeiliaid i gnoi cil ac i gynhyrchu poer i wrthsefyll yr asidedd
- Dylid osgoi bwydo anifeiliaid â llawer o ydau gyda silwair isel ei pH
- Sicrhau bod dŵr glân ar gael bob amser

### Clefyd anadlol neu Niwmonia

Mae niwmonia'n cael ei achosi gan nifer o feirysau gan gynnwys RSV, PI3, IBR a BVD. Bydd clefyd anadlol yn digwydd o ganlyniad i ryngweithio rhwng yr achosion feirysol hyn, yr amgylchedd a statws imiwnedd yr anifail. Yn ogystal â'r costau am driniaeth (£30+ mewn achosion llai difrifol), mae'r colledion cynhyrchu oherwydd cyfraddau twf is yn golygu y gall y wir gost fod yn fwy o lawer.

Rhai camau i'w cymryd i leihau'r perygl o glefyd anadlol:

- Cael anifeiliaid sy'n iach neu sydd wedi'u brechu ymlaen llaw
- Dilyn protocolau safonol ar gyfer brechu a chwariantin ar ôl prynu anifeiliaid
- Lleddfu'r straen sy'n cael ei achosi drwy symud, cymysgu neu drafod anifeiliaid neu drwy roi nifer o driniaethau milfeddygol yr un pryd
- Sicrhau bod adeiladau'n cael eu hawyru'n gywir gan ystyried ffactorau fel lliw aer, mewnfeydd ac allfeydd aer, lleihau lleithder drwy drwsio pibellau dŵr glaw a chafnau dŵr sy'n gollwng, draenio, deunydd gorwedd sych, lleihau drafftiau
- Maethu, hylendid a rheolaeth dda
- Dwysedd stocio priodol mewn cwtiau

## Systemau pesgi

### Systemau rheoli cyffredin

Mae nifer o systemau ar gael ac mae llawer o ffactorau amrywiol fel y defnydd o loi o'r diwydiant godro neu loi sugno, y tymor lloia, teirw, bustych neu dreisiedi/heffrod. Mae'r tablau sy'n dilyn yn dangos y dull arferol o reoli mewn amrywiaeth o systemau yn ystod tymhorau'r flwyddyn.

### Systemau pesgi cyffredin ar gyfer gwartheg a enir yn y gwanwyn

System	Ffynhonnell	Gwan	Haf	Hyd	Gaeaf	Gwan	Haf	Hyd	Gaeaf	Gwan	Haf
12 mis	Sugno	Sugno		Dwysfwyd							
	Godro	Llaeth	Dwysfwyd								
18 mis	Sugno	Sugno		Porthiant/dwysfwyd		Pori/dwysfwyd					
	Godro	Llaeth	Porthiant	Porthiant/dwysfwyd		Pori/dwysfwyd					
24 mis	Sugno	Sugno		Porthiant		Pori		Porthiant/dwysfwyd			
	Godro	Llaeth	Porthiant	Porthiant		Pori		Porthiant/dwysfwyd			
30 mis	Sugno	Sugno		Porthiant		Pori		Porthiant		Pori	
	Godro	Llaeth	Porthiant	Porthiant		Pori		Porthiant		Pori	

### Systemau pesgi cyffredin ar gyfer gwartheg a enir yn yr hydref

System	Ffynhonnell	Hyd	Gaeaf	Gwan	Haf	Hyd	Gaeaf	Gwan	Haf	Hyd	Gaeaf	
12 mis	Sugno	Sugno		Dwysfwyd								
	Godro	Llaeth	Dwysfwyd									
18 mis	Sugno	Sugno		Pori		Porthiant/dwysfwyd						
	Godro	Llaeth	Porthiant	Pori		Porthiant/dwysfwyd						
24 mis	Sugno	Sugno <sup>1</sup>			Pori		Porthiant/dwysfwyd		Pori			
	Godro	Llaeth	Porthiant	Pori		Porthiant/dwysfwyd		Pori				

DS: Mae'n mynd yn fwyfwy anarferol ac aneffeithlon i fagu gwartheg a anwyd yn yr hydref ar ôl 2 flwydd oed gan y byddai hyn yn arwain at gost fawr am eu bwydo drwy drydydd gaeaf.

<sup>1</sup>Mewn systemau llai dwys, gellir gadael lloi a anwyd yn yr hydref i sugno wrth deith y fam am 9-10 mis

## Targedau corfforol ac ariannol a materion ymarferol

Yn yr adrannau sy'n dilyn mae manylion corfforol ac ariannol y systemau mwyaf cyffredin ar gyfer pesgi gwartheg godro. Ar gyfer gwartheg o'r diwydiant godro, cymerir bod y llo wedi'i brynu ar ôl ei fagu am 3 mis. Cymerir hefyd ar gyfer ffermydd sy'n magu eu gwartheg eu hunain i'w pesgi mai'r gwerth trosglwyddo yw'r pris prynu ac mae'r elw gros yn cyfeirio at y system pesgi'n unig.

Cafwyd y data o Lawlyfr Rheoli Ffermydd SAC, o wybodaeth gan y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol ac o ffynonellau perthnasol eraill.

## Systemau dwys ar gyfer gwartheg eidion

### Systemau dwys 12-14 mis ar gyfer teirw

Corfforol	Teirw o'r fuches sugno		Teirw o'r fuches odro		Teirw croes biff a godro	
Pwysau cychwynnol (kg)	300	7 mis	110	3 mis	120	3 mis
Pwysau byw a enillir (kg/diwrnod)	1.6		1.4		1.5	
Pwysau gorffenedig (kg)	630	14 mis	540	13 mis	580	13 mis
Pwysau'r carcass (kg)	360	57%	290	53%	320	55%
<b>Deiet</b>	Dwysfwyd	1.7t	Dwysfwyd	2t	Dwysfwyd	2.1t
	Gwellt	300kg	Gwellt	600kg	Gwellt	670kg
<b>Ariannol</b>	<b>£ y pen</b>		<b>£ y pen</b>		<b>£ y pen</b>	
Pris gwerthu	1,260	£3.50/kg pwysau marw	900	£3.10/kg pwysau marw	1,100	£3.44/kg pwysau marw
Pris prynu	600	£2.20/kg pwysau byw	250		400	
<b>Allbwn</b>	600		650		700	
Costau newidiol	450		550		600	
<b>Elw gros (EG)<sup>1</sup></b>	150		100		100	

<sup>1</sup>Nid yw EG yn cynnwys costau sefydlog fel costau llafur, peiriannau ac adeiladau

### Materion ymarferol sy'n ymwneud â pherfformiad ac effeithlonrwydd

- Sicrhewch farchnad o flaen llaw a sicrhewch fod manylebau'r farchnad wedi'u bodloni neu bydd cosbau o ran pris
- Dewiswch loi sydd wedi'u cenhedlu gan deirw sydd â EBVau uchel ar gyfer twf a theithi'r carcass
- Mae iechyd da a bioddiogelwch yn hanfodol
- Sicrhewch fod gwellt ar gael i'w fwydo'n rhydd i leihau asidosis
- Sicrhewch fod dŵr glân ffres ar gael bob amser
- Digon o le ar gyfer bwydo - 500-750mm y pen
- Trafodwch y gwartheg bob pythefnos tua diwedd y cyfnod pesgi i fonitro twf
- Gwerthwch ar ôl bodloni gofynion sylfaenol y fanyleb ar gyfer y carcass
- Mesurau diogelwch ar gyfer staff y fferm

## Systemau lled-ddwys ar gyfer gwartheg eidion

## Systemau pesgi lled-ddwys 18-20 mis

Corfforol	Bustych sugno		Treisiedi/heffrod sugno		Bustych croes bíff a godro	
Pwysau cychwynnol (kg)	280	7 mis	260	7 mis	120	3 mis
Pwysau byw a enillir (kg/diwrnod)	0.97		0.74		1.0	
Pwysau gorffenedig (kg)	600	18 mis	550	20 mis	570	18 mis
Pwysau'r carcass (kg)	330	55%	300	54%	300	53%
<b>Deiet</b>	Dwysfwyd	550kg	Dwysfwyd	300kg	Dwysfwyd	875kg
	Silwair	4.5t	Silwair	3.9t	Silwair	5.3t
<b>Ariannol</b>	<b>£ y pen</b>		<b>£ y pen</b>		<b>£ y pen</b>	
Pris gwerthu	1,240	£3.75/kg pwysau marw	1,125	£3.75/kg pwysau marw	1,080	£3.60/kg pwysau marw
Pris prynu	670	£2.40/kg pwysau byw	600	£2.30/kg pwysau byw	420	
<b>Allbwn</b>	570		525		660	
Costau newidiol	350		300		450	
<b>Elw gros (EG)<sup>1</sup></b>	220		225		210	

<sup>1</sup>Nid yw EG yn cynnwys costau sefydlog fel costau llafur, peiriannau ac adeiladau

## Materion ymarferol sy'n ymwneud â pherfformiad ac effeithlonrwydd

- Prynwch wartheg o gyn lleied o ffynonellau â phosibl ar ôl cael gwybod eu statws iechyd
- Bydd rhaglen iechyd ataliol yn helpu i gynnal y twf yr ydych yn ei geisio
- Dylid cadw'r gwartheg dan do am gyfnod mor fyr â phosibl gan gynnal eu twf ond bydd yn ddoeth eu cynefino â glaswellt drwy leihau dwysfwyd cyn eu troi allan
- Rheoli glaswellt yn dda, e.e. pori mewn cylchdro i sicrhau'r cyfraddau twf uchaf
- Gorffennwch besgi gwartheg a anwyd yn y gwanwyn drwy bori er mwyn peidio â'u cadw dan do am ail aeaf. Bydd hyn yn galw am ddefnyddio rhywfaint o ddwysfwyd ar ddiwedd yr haf
- Trafodwch y gwartheg yn rheolaidd wrth ddod i ddiwedd y cyfnod pesgi
- Dylid gorffen pesgi gwartheg a anwyd yn yr hydref dan do felly bydd angen porthiant o ansawdd da i leihau'r defnydd o ddwysfwyd

## Systemau llai dwys ar gyfer gwartheg eidion

### System lai dwys ar gyfer pesgi bridiau brodorol dros 24 mis

Data corfforol	Bustych sugno		Treisiedi/heffrod sugno	
Pwysau cychwynnol (kg)	270	7 mis	250	7 mis
Pwysau byw a enillir (kg/diwrnod)	0.65		0.55	
Pwysau gorffenedig (kg)	600	24 mis	550	22 mis
Pwysau'r carcass (kg)	330	55%	300	54%
<b>Diet</b>	Dwysfwyd	400kg	Dwysfwyd	350kg
	Silwair	5.5t	Silwair	5.2t
<b>Data ariannol</b>	<b>£ y pen</b>		<b>£ y pen</b>	
Pris gwerthu	1,240	£3.75/kg pwysau marw	1,125	£3.75/kg pwysau marw
Pris prynu	650	£2.40/kg pwysau byw	575	£2.30/kg pwysau byw
<b>Allbwn</b>	590		550	
Costau newidiol a chostau porthiant	400		350	
<b>Elw gros<sup>1</sup></b>	190		200	

<sup>1</sup>Nid yw EG yn cynnwys costau sefydlog fel costau llafur, peiriannau ac adeiladau

### Materion ymarferol sy'n ymwneud â pherfformiad ac effeithlonrwydd

- Prynwch wartheg o gyn lleied o ffynonellau â phosibl ar ôl cael gwybod eu statws iechyd
- Bydd rhaglen iechyd ataliol yn helpu i gynnal y twf yr ydych yn ei geisio
- Sicrhewch y cyfraddau twf uchaf posibl drwy reoli glaswellt yn dda. Bydd yn ddoeth cynnwys cyfnod dan do yn y system hon a gall hynny roi twf cydadferol da pan fydd y gwartheg yn pori
- Trafodwch y gwartheg yn rheolaidd wrth ddod i ddiwedd y cyfnod pesgi
- Chwiliwch am opsiynau marchnata sy'n rhoi prisiau premiwm am wartheg o fridiau brodorol sydd wedi'u magu mewn systemau llai dwys

## Systemau eraill ar gyfer gwartheg eidion

### Pesgi gwartheg stôr trwm

Bydd rhai pesgwyr yn defnyddio system lle y mae gwartheg stôr trwm yn cael eu prynu a'u rhoi drwy'r system bob 2-3 mis. Prynir y gwartheg pan fydd cyfle'n codi ac mae angen profiad i adnabod gwartheg sy'n gallu rhoi elw. Mae'n bosibl iawn y bydd bwydydd o wastraff a sgil-gynhyrchion yn cael eu defnyddio a bydd pwyslais ar gael bwydydd sy'n rhoi gwerth da am arian ar sail gwerthoedd cymharol.

Mae potensial da am elw yn y systemau hyn ond mae perygl o afiechyd gan y bydd y gwartheg yn dod o nifer o ffermydd neu farchnadoedd gwahanol. Bydd yn hollbwysig cael cynllun iechyd ar gyfer y systemau hyn ac mae angen monitro cyfraddau twf yn rheolaidd er mwyn gallu gwerthu da byw cyn gynted ag y byddant yn dangos arwyddion o dwf llai ac effeithlonrwydd llai.



### Systemau strwythuredig/cydweithredu ar gyfer gwartheg eidion

Mae systemau strwythuredig ar gyfer gwartheg eidion o'r fuches odro yn dod yn fwy cyffredin. Ceir y gwartheg o ffermydd llaeth cyffredin ac oddi wrth fagwyr lloi arbenigol. Bydd y gwartheg yn cael eu pesgi gan ddilyn gweithdrefnau a deiet penodedig. Mantais y systemau hyn yw eu bod yn gyson a'u targedau wedi'u diffinio, a bydd targed wedi'i bennu ar gyfer elw. Maent yn galw am ymddiriedaeth rhwng unigolion ac ymrwymiad i'r contract yn hytrach na manteisio ar gyfleoedd i werthu gwartheg pan fydd y marchnadoedd confensiynol yn fywiog. Mae'r systemau hyn yn ddelfrydol ar gyfer y rheini sydd am gael contract diogel ac sydd â lefelau bioddiogelwch uwch.

### Cynhyrchu Cig Llo Rhosliw

Mae Cig Llo Rhosliw yn gig pinc sy'n cael ei gynhyrchu o loi a gigyddwyd o dan 8 mis oed, ac mae Cig Eidion Rhosliw yn gynnyrch o wartheg hŷn hyd at 1 flwydd oed. Mae Cig Llo Rhosliw yn wahanol i gig llo gwyn traddodiadol am fod haearn a ffeibrau'n cael eu cynnwys yn y deiet. Mae'r farchnad ar gyfer cig llo yn fach ond gellir ei datblygu'n lleol os yw lloi addas ar gael o fuchesi godro. Gorau oll os gellir gwneud contract cyn cychwyn cynhyrchu, ond gellir pesgi'r gwartheg ymlaen i gael cig eidion confensiynol wedyn os na fydd y cynllun gwreiddiol i gynhyrchu Cig Llo Rhosliw neu Gig Eidion Rhosliw yn dwyn ffrwyth.

Rhai ystyriaethau ar gyfer systemau cynhyrchu Cig Llo Rhosliw/Cig Eidion Rhosliw yw:

- Prynwch loi iach sydd wedi cael digon o laeth tor, yn uniongyrchol o'r fferm lle cawsant eu geni os oes modd er mwyn lleihau'r perygl o straen neu afiechyd.
- Rhaid cynllunio rhaglen addas gyda milfeddyg ar gyfer brechu a rheoli clefydau a rhaid cadw at y rhaglen honno.
- Penderfynwch ar y system bwydo llaeth: bwydo'n rhydd neu ddwywaith y dydd, drwy deth neu o fwcad, a'r math o bowdwr llaeth a ddefnyddir.
- Bydd system sy'n pesgi hyd 6-7 mis yn cynhyrchu carcasau bach o hyd at 150kg o wartheg 300kg. Gellir cynnig amnewidyn llaeth i loi drwy gydol eu hoes, ynghyd â dwysfwyd, a fydd yn codi i 2kg y pen y diwrnod yn 6-7 mis oed. Dylai gwellt gael ei fwydo'n rhydd drwy gydol y cyfnod pesgi i roi ffeibr. Dylid gosod targed ar gyfer enillion pwysau cyfartalog o 1.2 i 1.4kg y pen y diwrnod gan ddisgwyl i'r lloi gymryd tua 375kg o bowdwr llaeth a 150-175kg o ydau.
- Bydd system hirach o 10 mis yn cynhyrchu carcasau o 200kg o wartheg 400kg. O dan y system hon gellir diddyfnu lloi'n 5-7 wythnos oed pan fyddant yn pwysu 80kg wedi iddynt ddechrau bwyta digon o beledi cychwynnol (1kg y diwrnod). Wedyn byddant yn cael eu rhoi ar ddeiet i'w pesgi sy'n uchel ei brotein a'i startsh er mwyn hybu twf y cyhyrau yn hytrach na chorffolaeth. Unwaith eto, dylid cynnig gwellt i'w gwneud yn haws cnoi cil. Ar ôl eu diddyfnu, dylai'r lloi dyfu rhwng 1.3 a 1.5kg y pen y diwrnod i gyrraedd 400kg.



# Gwneud arian drwy besgi gwartheg

Er mwyn pesgi gwartheg yn llwyddiannus a phroffidiol, rhaid deall y ffactorau sy'n effeithio ar broffidioldeb, cyllidebu da, rheoli risg a'r gallu i gyrraedd y lefelau perfformiad corfforol sydd wedi'u pennu.

## Ffactorau allweddol sy'n effeithio ar broffidioldeb

- Y pris am y gwartheg ar ôl gorffen eu pesgi (sy'n cael ei bennu gan bwysau a dosbarthiad yn bennaf)
- Pris prynu'r gwartheg (sy'n cael ei bennu gan bwysau, rhyw, brîd ac oed yn bennaf)
- Costau bwyd (prisiau grawn a phorthiant, cymysgedd ac ansawdd y dognau)
- Trosi bwyd yn effeithlon (ansawdd a maint y dognau, iechyd anifeiliaid, bridio, geneteg a rhyw)

Gan amlaf, bydd y proffidioldeb cyffredinol yn llai agored i'r effaith o gostau uniongyrchol eraill (costau meddygol a milfeddygol, tagiau, cost marchnata, cludiant, diesel, trydan, llog a manion eraill). O ran costau sefydlog, y prif gwestiwn yw: A fyddai'r costau am beiriannau a llafur yn wahanol iawn pe byddai'r fenter pesgi yn dod i ben? Os byddent, rhaid ystyried amcangyfrif o'r costau sefydlog hyn.

O'r prif ffactorau sy'n effeithio ar broffidioldeb, prisiau prynu a gwerthu'r gwartheg yw'r rhai pwysicaf. Felly mae meddwl am "elw'r pesgwr" (y pris gwerthu ar ôl tynnu'r gost prynu) yn fan cychwyn da ar gyfer cyllidebu. Os prynir gwartheg stôr trwm, mae'r proffidioldeb yn sensitif iawn i'r pris prynu. O'i gymharu, mae'r elw o brynu gwartheg stôr ysgafnach yn fwy sensitif i'r pris am yr anifail gorffenedig am fod y cyfnod pesgi'n hirach.

Cost bwyd yw'r gost fwyaf sy'n effeithio ar faint yr elw. Bydd costau bwyd yn cynyddu os ceir problem wrth drosi bwyd yn dwf (dogni gwael, problemau iechyd). Mae effeithlonrwydd wrth drosi bwyd yn arbennig o bwysig ar gyfer gwartheg trwm oherwydd y costau uchel am eu cadw. Dylid prisio grawn a gwellt a gynhyrchwyd ar y fferm ar eu cost cyfle (h.y. pe byddent yn cael eu gwerthu i gymydog) yn hytrach na'u cost cynhyrchu. Rhaid monitro'r enillion pwysau byw dyddiol drwy bwysu'r gwartheg yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod targedau wedi'u cyrraedd ac er mwyn gallu penderfynu ar sail data.

Mae dau benderfyniad mawr i'w gwneud ynglŷn â phesgi gwartheg, sef faint i'w dalu am wartheg stôr a pha bryd i werthu. Mae cyllidebu syml yn gallu'ch helpu i wneud y penderfyniadau hyn.



### Faint i'w dalu am wartheg stôr?

Er bod llawer o fathau gwahanol o systemau pesgi, yn amrywio o besgi teirw o'r fuches odro ar haidd i besgi bustych organig ar borthiant yn bennaf, gellir cyllidebu ar gyfer pob un ohonynt drwy ddefnyddio'r offeryn isod. Yn y Tabl isod dangosir cyllideb ar gyfer adennill costau'r pesgwr sydd am brynu bustych sugno blwydd.

### Cyfrifo pris am wartheg stôr er mwyn adennill costau

Pwysau'r gwartheg stôr		350	kg wrth eu prynu
Pwysau disgwylidig ar gyfer cigydda		650	kg wrth eu gwerthu
Pwysau i'w hennill		300	kg
Cost yr enillion pwysau byw <sup>1</sup>		1.80	Cost gyfartalog yr enillion pwysau byw (£/kg)
Cyfanswm cost yr enillion pwysau byw	b	540	£
<b>% lladd allan ddisgwylidig</b>			
% lladd allan ddisgwylidig		55	
Pwysau disgwylidig y carcas		357.50	kg
Pris disgwylidig ar gyfer cigydda		3.80	£/kg pwysau marw
Pris disgwylidig y carcas	a	1,358.50	£
<b>Pris adennill costau am wartheg stôr<sup>2</sup></b>			
Pris adennill costau am wartheg stôr	a - b	818.50	£
Pris adennill costau am wartheg stôr		2.34	£/kg

<sup>1</sup>Bydd cost yr enillion pwysau byw yn amrywio o fferm i fferm, felly mae'n bwysig bod pob fferm yn gwybod ei chostau cynhyrchu ei hun

<sup>2</sup>Mae angen cynnwys elfen o elw

Mae'r gyllideb yn fwyaf sensitif i'r pris disgwylidig am bob anifail ar gyfer ei gigydda, ac mae hyn yn dibynnu ar dri ffactor: pris y farchnad gyffredinol, pwysau'r carcas a'i ddosbarthiad. Er bod gwefan a chyhoeddiadau HCC yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar brisiau'r farchnad, y cynhyrchydd fydd yn penderfynu yn y pen draw.

Rhaid addasu'r pris hwn wedyn i gyfateb i bwysau a dosbarthiad disgwylidig yr anifail ar ôl gorffen ei besgi. Mae gwahaniaeth mawr rhwng y pris y kg am bwysau marw bustach sugno gradd U a hwnnw ar gyfer tarw Holstein pur. Felly mae'n hollbwysig gwybod am y math

o wartheg y mae'r cwmnïau prosesu am eu cael, eu manylebau ar gyfer trimio a sut mae eu gridiau priso'n gweithio.

Mae'r amcangyfrif o gost yr enillion pwysau yn bwysig hefyd, yn enwedig wrth brynu gwartheg stôr sy'n llai, yn fwy ifanc ac yn ysgafnach (e.e. lloi diddwyn o fuchesi godro) gan y bydd yr anifeiliaid hyn ar y fferm yn hirach. Mae'r tabl isod yn dangos rhai costau nodweddiadol am bob kg o bwysau byw a enillir mewn nifer o systemau pesgi (Ffynhonnell: QMS Enterprise Costings 2013).

### Cost yr enillion pwysau byw mewn gwahanol systemau pesgi gwartheg eidion

System	Cost yr enillion pwysau byw (£/kg pwysau byw)
Pesgi ar ydau	£1.28 i £2.10
Pesgi lled-ddwys ar borthiant	£2.08 i £2.28
Pesgi llai dwys ar borthiant	£1.96 i £2.04

Gallwch ddefnyddio'r templed isod i gyfrifo'ch costau'ch hun am bob kg o bwysau a enillir.

## Cyfrifo cost enillion pwysau byw

	Enghraifft		Eich ffigurau	
Pwysau wrth brynu	350	kg		
Pris prynu	700	£		
Pwysau targed	650	kg		
Cyfanswm yr enillion pwysau	300	kg		
Enillion pwysau byw dyddiol	1.0	kg y diwrnod		
Diwrnodau ar y fferm	300			
Costau	£ y pen	£/kg	£ y pen	£/kg
Bwyd	206	0.69		
Porthiant	50			
Meddygol a milfeddygol	14			
Deunydd gorwedd	40			
Costau eraill	40			
<b>Cyfanswm y costau newidiol</b>	<b>350</b>	<b>1.17</b>		
Llog ar gyfalaf <sup>1</sup> ar 5%	43			
Tâl am gostau sefydlog <sup>2</sup>	150			
<b>Cost gyfartalog</b>	<b>543</b>	<b>1.81</b>		

<sup>1</sup>cost prynu ynghyd â chostau newidiol x 5% y flwyddyn (am 300 diwrnod)

<sup>2</sup>costau llafur, peiriannau, dibrisiant, rhent, gorbenion eraill

Fel y mae'r tabl uchod yn dangos, y gost bwysicaf yw bwyd ac mae pris grawn yn elfen fawr yn y gost hon oherwydd y cyfrannau uchel o ddwysfwyd yn y rhan fwyaf o ddognau pesgi. Felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r rhagolygon am brisiau grawn. Mae'r pris blaendrafodion, sy'n cael ei ddiweddarau bob dydd, yn ganllaw da. Gellir gostwng costau bwyd drwy wneud gwell porthiant neu drwy ddefnyddio sgil-gynhyrchion rhatach os ydynt ar gael.

Bydd y math o anifail ac ansawdd y rheoli yn effeithio ar gost yr enillion pwysau hefyd. Mae potensial yr anifail ar gyfer twf yn cael ei bennu gan ei frid, ei ryw, ei oed a'i gyflwr wrth gyrraedd y fferm. Pa bynnag fath o wartheg stôr a brynir, mae bwydo a rheoli iechyd ar ôl prynu yn hanfodol i gyrraedd y targedau ar gyfer perfformiad. Mae monitro cyfraddau twf ar sail targedau drwy bwysio anifeiliaid yn ddull rheoli hanfodol ar ffermydd pesgi.

Mae cyllidebau'n ymwneud â'r dyfodol, felly dylid eu hailgyfrifo bob hyn a hyn ar sail y prif ragdybiaethau. Gellir gwneud hyn drwy gyfrifo'r effaith ar y pris adennill costau ar gyfer prynu gwartheg stôr ar sail yr amcangyfrifon uchaf ac isaf o brisiau gwartheg, cost grawn a chost enillion pwysau byw dyddiol yn y dyfodol. Un ystyriaeth bwysig, a anghofir weithiau, yw'r angen i ddarparu ar gyfer rhywfaint o elw, yn hytrach nag adennill costau'n unig, gan mai hwn, yn y bôn, fydd cyflog y ffermwr.

Mae'r broses cyllidebu uchod yr un mor ddefnyddiol i ffermwyr gwartheg sugno (neu odro) sy'n ystyried "gwerthu, storio neu besgi" rhai neu'r cyfan o'u gwartheg ifanc (neu hyd yn oed buchod i'w difa).

### Pa bryd i werthu?

Yr amser cywir i werthu anifail bîff yw pan fydd wedi cyrraedd pwysau a lefel gorffen dderbyniol a phan fydd gwerth y pwysau a enillwyd yn fwy na'r costau am ennill y pwysau hyn. Bydd y costau hyn yn cynnwys:

- Costau bwyd a deunydd gorwedd
- Costau uniongyrchol eraill sy'n gysylltiedig ag ennill pwysau

Mae llyfryn HCC "O'r Gât i'r Plât" yn disgrifio'r gofynion ar gyfer dosbarthu carcasau a rhestr brisiau nodweddiadol. Mae hyn yn bwysig gan ei bod yn bosibl ennill gradd uwch am gydffurfiad wrth i'r anifail fynd yn drymach ond collir y fantais honno wedyn os rhoddir cosb pris am fod yr anifail mewn dosbarth uwch ar gyfer braster. Dylid ceisio osgoi cosbau pris oherwydd byddai cost i'w thalu am ennill y pwysau ychwanegol yn ogystal â'r gosb. Fel y mae'r tabl isod yn dangos, mae'r cosbau am garcasau sydd â gormod o fraster (4H ac uwch) yn uwch na'r cynnydd yn y prisiau am radd ychwanegol am gydffurfiad.



### Enghraifft o rhestr brisio (pris sylfaenol +/- c/kg)

	1	2	3	4L	4H	5L	5H
<b>E</b>	+5	+10	+10	+5	-15	-50	-50
<b>U+</b>	sylfaenol	+5	+5	sylfaenol	-15	-50	-50
<b>-U</b>	sylfaenol	+5	+5	sylfaenol	-15	-50	-50
<b>R</b>	-5	sylfaenol	sylfaenol	sylfaenol	-15	-50	-50
<b>O+</b>	-10	-5	-5	-10	-20	-60	-60
<b>-O</b>	-20	-15	-15	-25	-40	-70	-70
<b>P+</b>	-30	-25	-25	-35	-40	-80	-80
<b>-P</b>	-30	-25	-25	-35	-40	-80	-80

Noder: Bydd gan bob prosesydd amrywiad ei hun ar y rhestr brisio. Bydd yn werth drafod hyn gyda'r prosesydd cyn cyflenwi gwartheg.

Un fantais wrth besgi gwartheg yw bod hyblygrwydd i werthu ar wahanol adegau. Yn wir, byddai gwerthu'r anifail yn ôl i'r farchnad gwartheg stôr yn ddewis rhesymol mewn rhai amgylchiadau. Gan amlaf, fodd bynnag, y nod yw gwerthu'r anifail i'w gigyddu (drwy farchnad neu'n uniongyrchol i ladd-dy) ar ôl cyrraedd y lefel gorffen orau posibl. Yn gyffredinol, mae'r penderfyniad yn dibynnu ar ba un a yw'r fferm yn gorffen pesgi nifer sefydlog o wartheg bob blwyddyn (e.e. fferm sy'n cadw 50 o loi o'i buches sugno ei hun) neu'n prynu gwartheg stôr yn rheolaidd i gymryd lle gwartheg a werthwyd ar ôl eu pesgi (h.y. system dan do ddi-dor).

Dylid gwerthu'r gwartheg pan fydd y gost o ychwanegu'r cilogram olaf o bwysau yn cyfateb i bris gwerthu'r cilogram hwnnw. Hyd at y pwynt hwnnw, mae pob cilogram ychwanegol yn rhoi rhywfaint o elw, er bod hwnnw'n lleihau.

Gellir cael amrywiadau mawr ym mhob grŵp o wartheg o ran maint y pwysau a enillir bob dydd, felly mae'n hanfodol eu pwysu'n rheolaidd yn y misoedd olaf. Gallai fod yn werth buddsoddi mewn systemau trafod modern sy'n defnyddio technoleg EID os yw'r system pesgi gwartheg yn ddigon mawr.

Oherwydd yr amrywiaeth yn yr enillion pwysau byw dyddiol ac yn eu dosbarthiad, dylid trin gwartheg sy'n pesgi fel unigolion. Dim ond yn achos teirw ifanc y mae

mantais mewn gwerthu ar y cyd, oherwydd y problemau o ran diogelwch a pherfformiad a achosir drwy rannu a chymysgu grwpiau.

Gan mai cost grawn yw'r rhan fwyaf o'r gost ffiniol ar gyfer pesgi gwartheg, bydd newid mawr ym mhrisiau grawn yn cael effaith fawr wrth bennu'r pwysau gorau ar gyfer cigyddu, gan gymryd nad oes newid mawr yn y pris am wartheg gorffenedig. Os bydd cost grawn yn uchel mewn blwyddyn benodol, bydd pwysau carcassau drwy'r wlad yn tueddu i ostwng, gan fod y gost o ennill cilogram ychwanegol yn uchel o'i chymharu â gwerth y cilogram hwnnw. Mewn blynyddoedd gwael iawn, pan fydd y dognau i anifeiliaid yn ddrud iawn oherwydd ansawdd gwael y silwair a phrisiau uchel am rawn, y dewis gorau gan amlaf yw gwerthu ar y lefel a'r pwysau gorffen isaf sy'n dderbyniol. Ar y llaw arall, gan gymryd bod yr un pris wedi'i dalu am y gwartheg, os bydd y grawn yn rhatach mae'n werth tyfu'r anifail i radd uwch a hyd at y pwynt cyn y bydd cosbau'n cael eu rhoi am raddau neu bwysau. Mae'r rhan fwyaf o gridiau prisiau yn cynnwys cosbau llym am fagu gormod o fraster a/neu ormod o bwysau, felly mae'r gallu i asesu'r dosbarthiad yn gywir yn sgil hanfodol.

Yn achos ffermydd arbenigol sy'n dilyn cylch di-dor o brynu a gwerthu gwartheg, y nod yw gwneud elw am bob lle bwydo yn hytrach na phob anifail. Gan amlaf, bydd y ffermydd hyn yn gwerthu gwartheg ychydig yn gynharach am fod y gost cynhyrchu ffiniol ychydig yn uwch.



## Lleihau ffactorau risg wrth besgi gwartheg

Mae llawer o risg mewn pesgi gwartheg. Wrth brynu 50 o loi sugno, bydd tua £50,000 o gyfalaf gweithio yn cael ei rwymo. Er mai'r risg fwyaf yw y bydd y pris cyffredinol am wartheg gorffenedig yn gostwng, mae pethau fel achosion o glefydau'n gallu effeithio ar yr elw o besgi hefyd. Mae'r prif opsiynau ar gyfer rheoli risg wedi'u disgrifio isod:

- Cyn prynu (neu gadw'ch lloi'ch hun), cyllidebu i bennu'r pris y gellir ei fforddio, a mesur effaith y senarios gorau a gwaethaf
- Dylid prynu gwartheg stôr o ffynonellau dibynadwy sydd â statws iechyd hysbys
- Trafod y goblygiadau o besgi teirw ifanc gyda phrynwyr posibl
- Gweithredu cynllun iechyd ataliol gyda chymorth milfeddyg y fferm
- Dylid prynu grawn ymlaen llaw a/neu dylid darparu lle i'w storio pan fydd y prisiau bwyd yn ffafriol
- Dylid pwysu gwartheg yn aml i fonitro eu cyfraddau twf: drwy wneud hyn gellir addasu dognau ac adnabod problemau iechyd yn gynnar
- Dylid diweddarau'r gyllideb "pa bryd i werthu" yn aml ac yn enwedig os yw prisiau a chostau'n amrywio
- Dylid prynu a gwerthu gwartheg ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau anwadalrwydd yn y farchnad
- Dylid ystyried a thrafod cytundebau â chynhyrchwyr gwartheg stôr er mwyn rhannu'r risgiau a'r enillion o besgi gwartheg
- Gellir prynu a phesgi gwartheg ar gontract. Ar hyn o bryd mae cadwynau cig eidion integredig yn rhan gymharol fach o'r farchnad gigydda genedlaethol, ond maent ar gynnydd ac maent yn debygol o fod yn fwy cyffredin yn y dyfodol. Yn yr un modd â gwerthu grawn ar gontract, nid oes angen rhwymo'r holl wartheg a bydd nifer o wahanol opsiynau ar gael ar gyfer prisio fel arfer.

Er na fydd yr holl bwyntiau uchod yn berthnasol i'r canllawiau ac egwyddorion sydd wedi'u disgrifio yn y llyfryn hwn, byddant yn helpu i besgi gwartheg eidion yn fwy effeithlon a phroffidiol.

### Gwybodaeth bellach

Byddwch cystal â chysylltu â thîm Datblygu'r Diwydiant yn HCC  
Ffôn: 01970 625050  
neu e-bost: [info@hccmpw.org.uk](mailto:info@hccmpw.org.uk)

Mae rhagor o wybodaeth am y llyfryn hwn ac am waith HCC ar gael yn [www.hccmpw.org.uk](http://www.hccmpw.org.uk)

